Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar Nos Fercher y 26ain o Fai 2010 am 7.30yh.

Presennol: Y Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, Y Dirprwy Faer y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Ieuan Gwyn, y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Hugh Towns, y Cyng. Richard Wallace.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Dim

Materion yn ymwneud â'r Heddlu. Adroddodd y SCCH Roger Anthony yr adroddwyd y cyflawnwyd chwe throsedd yn ystod y mis:-

i) Dwyn cerbyd
ii) Ymosodiad domestig
iii) Dwyn addurn
iv) Dwyn o Ysgol Teilo Sant

A dau dramgwydd yn erbyn y drefn gyhoeddus – ymdriniwyd â phob un.
Tynnodd y Cyng. Dawn Wallace sylw'r Heddlu at y broblem gyson o bobl yn gosod bolardiau ar Heol Newydd i gadw lleoedd parcio.

Cof 45 / Mai /10 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones bod adran Ystadau CSG yn dweud nad eu cyfrifoldeb nhw yw Cloc yr Eglwys, gan nad eu heiddo nhw ydyw ef. Byddai'r Dirprwy Brif Weithredwr Chris Burns yn crybwyll y mater yn y cyfarfod corfforaethol nesaf. Cyfarfu'r CS Jones a'r Swyddog Technegol gydag Eirian James, Rheolwr Hawliau Tramwy. Byddai'n edrych ar gaffael grantiau i wella Pont y Brenin a'r cyffiniau.
Mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn paratoi cynlluniau i ddatrys y broblem mynediad i swyddfa'r post.
Mewn ymateb i'r cwestiynau, dywedodd y CS Jones y byddai'n mynd ar drywydd gosod biniau sbwriel ychwanegol ar y Cilgant.

Cof 46 / Mai / 10 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd a chadarnhawyd bod cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher yr 28ain o Ebrill 2010, yn gofnod cywir.
Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Roy Davies. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 12fed o Fai 2010, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.
Cynigwyd gan y Cyng. Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 12fed o Fai 2010, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.
Cynigwyd gan y Cyng. Chris Parish ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 47 /Mai / 10 Materion yn deillio o gyfarfodydd blaenorol

Parthed â Cof 31/Mai/10 Dywedodd y Cyng. Edward Thomas y byddai'n trefnu i gwrdd â StuartQuick mewn perthynas ag arwyddion o'r orsaf rheilffordd.
Parthed â Cof 16/ Ebrill/10 Adroddwyd bod hysbysiad gorfodi wedi cael ei weinyddu ar Debbie's Diner.
Parthed â Cof 33/ Mai /10 Dywedodd y Cyng. Edward Thomas nad oedd prynu sedd yn gynwysedig yn y gyllideb bresennol.
Parthed â Cof 27/Mai / 10 Cafwyd cais gan y Cyng. Roy Davies y dylid tynnu sylw'r CS Ieuan Jones at fethiant y Swyddog Cynllunio Kevin Phillips i fynychu'r cyfarfod safle diweddar mewn perthynas ag E/22709.

Cof 48/ Mai / 10 Gohebiaeth sy'n galw am ymateb

1. Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol – adolygiad o'r Trefniadau Etholiadol yn Sir Gaerfyrddin. Os bydd datblygu preswyl yn digwydd yn Chwarter Gogleddol y Dref yna mae'n bosib bydd y cyngor yn ystyried gofyn am ward arall neu am newidiadau i ffiniau'r ward bresennol.
2. Cyfarfod Hawliau Tramwy – Neuadd Cwmifor – 10fed o Fehefin. Bydd y Cyng. Chris Parish a'r Cyng. Roy Davies yn mynychu.
3. Ffair Nawdd CSG – Byddai'r Cyng. Chris Parish yn mynychu.
4. Cyfarfod croesfannau ysgol – Byddai'r Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins a'r Cyng. Chris Parish yn mynychu.

Cof 49 / Mai/ 10 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Davies Craddock – Parthed ag yswiriant
2. Un Llais Cymru – cylchgrawn Llais
3. Y Cyng. Pam Thomas, Dyffryn Cennen – yn ymgymryd â dyletswyddau'r Clerc dros dro.
4. Gwahoddiad Glassallt Fawr–19eg o Fai 2010.
5. Shelter Cymru – Gwahoddiad. Byddai'r Cyng. Chris Parish yn mynychu
6. Kate Martin – Anfon CV i'r Cyngor.
7. Diane Mosey Davies – Cyngor Cymuned Llannon parthed â'r cynllun basgedi crog.
8. Un Llais Cymru – hysbysiad am y CCB ar y 9fed o Hydref 2010.
9. Cynllun Gweithredu Blynyddol Drafft 2011-2012 – Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Cof 50 / Mai /10 Materion Ariannol.

1. Cyfrifon i'w Talu.
   CGGC (taliad Ebrill) £ 23.79

Treuliau'r Clerc (cynnal a chadw gliniadur y Cyngor) £ 49.99

Pasiwyd yr eitemau i'w talu. Cynigwyd gan y Cyng. Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

2. Cofrestr Asedau
   Rhestrodd Mr Plummer yr eitemau canlynol i'w hychwanegu at y gofrestr Asedau:-
   i) Gyriant Caled Allanol i'r Cyfrifiadur
   ii) Ffôn BT newydd i'r swyddfa
   iii) Setiau symud a siarad ar gyfer digwyddiadau'r Cyngor.
   iv) Dathliad 30 Mlynedd Siarter Trefeillio Le Conquet
   v) Rhodd gludwaith Le Conquet i'r Cyngor
   Amcangyfrifwyd mai cyfanswm gwerth yr eitemau yma yw £368.
   Argymhellodd Mr Plummer bod y swm hwn yn cael ei ychwanegu at y gofrestr Asedau Sefydlog.
   Cyfanswm yr asedau Sefydlog a ddelir gan y Cyngor ar hyn o bryd yw £111,758.
   Cynigodd y Cyng. Edward Thomas ac eiliodd y Cyng. Julia Jones bod argymhelliad y Swyddog Cyllid yn cael ei dderbyn. Roedd pawb o blaid.
3. Archwiliad 2009/10.
   Cwblhaodd y Cynghorwyr y cwestiynau ar y ddogfen Archwilio.
   Cynigodd y Cyng. Ieuan Gwyn y dylid arwyddo bod y ddogfen wedi cael ei chwblhau. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
   Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins ac eiliodd y Cyng. Edward Thomas bod Mr Lyn Llewellyn yn cael ei benodi'n Archwilydd mewnol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 2009/10. Roedd pawb o blaid.

4. Cyfrif Treuliau'r Maer.
   Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod £1,500 yn cael ei drosglwyddo i Gyfrif y Maer erbyn diwedd yr wythnos a bod y gweddill yn cael ei drosglwyddo cyn gynted ag y caiff y gyllideb ar gyfer treuliau'r Maer ei therfynu. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cof 51/ Mai/10 Doedd dim Materion Trawsgludiaeth a Phriffyrdd i'w trafod

Cof 52 / Mai / 10 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Rhoddodd y Swyddog Technegol adroddiad ar faterion sydd ar y gweill. Roedd y Swyddog Gwarchodaeth wedi dweud y byddai CSG angen y cynlluniau ar gyfer y ffenest newydd arfaethedig yn Neuadd y Sir cyn y gellid awdurdodi'r gwaith.
Roedd Mr Davies wedi mynychu cyfarfod gyda'r rheolwr cefn gwlad – hamdden a mynediad, Mr Eirian James ar y 5ed o Fai, mewn perthynas â chyflwr Pont y Brenin, a ddifrodwyd gan fandaliaeth. Roedd ychydig bach o arian ar gael i'w hatgyweirio.
Cyflwynodd y Swyddog Technegol y dyfynbris canlynol am ddarparu sedd i goffáu Arglwydd Dynevor:-
Sylfaen £284.50
Cludo'r sedd i'r lleoliad a'i gosod yn ei lle £ 107
Pris Glasdon am y sedd £ 772 + £13.99 am gapiau bolltau.
Cynigodd y Cyng. Edward Thomas ac eiliodd y Cyng. Colin Jenkins na ddylai'r Cyngor fwrw ymlaen â phwrcas y sedd ar hyn o bryd, ond y dylid gosod plac ym mynedfa Parc Penlan. Roedd pawb o blaid.

Cyflwynodd Mr Davies yr archebion canlynol ar gyfer y digwyddiad 'Revels in the Park':-
Charles Sams – generadur £397
J. Ash - £60 i gludo byrddau a chadeiriau
G. Thomas - £60 am System Annerch y Cyhoedd
Band California Dreaming - £300
Neuadd Ddinesig - £ 92.50 am logi byrddau a chadeiriau
Lawrence Scaffolding - £ 200 am y llwyfan

Cof 53 / Mai/ 10 Adroddiad y Faeres.
Cyflwynodd y Cyng. Charlotte Leadbeater adroddiad am yr holl achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor. Cyflwynodd ludwaith wedi'i fframio, a roddwyd fel rhodd gan dref Le Conquet i'r Cyngor. Yn ogystal, fe wnaeth y Cyng. Leadbeater gyflwyno ffotograff wedi'i fframio o'r Cyngor cyfan. Roedd y Faeres yn dymuno diolch i'r Aelodau am eu holl gefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Cof 54 / Mai/10 Adroddiadau Arall

1. Digwyddiadau'r Haf ym Mharc Penlan
   Adroddodd y Clerc am y trefniadau a wnaed ar gyfer y digwyddiad 'Revels in the Park', a gynhelir ar y 19eg o Fehefin.
   Gwirfoddolodd y Cynghorwyr canlynol i helpu yn ystod y digwyddiad:- y Cyng. R. Bellamy, y Cyng. R. Wallace, y Cyng. H. Towns, y Cyng. E. Thomas, y Cyng. J. Jones, y Cyng. F. Murphy, y Cyng. R. Davies, y Cyng. C. Parish. Gofynnwyd i'r Clerc i sicrhau bod posteri a thaflenni ar gael cyn gynted ag sy'n bosib i hysbysebu'r digwyddiad.

2. Is Grŵp Goleuadau'r Nadolig
   Adroddodd y Cyng. E. Thomas am y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 30ain o Fawrth. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod y Clerc yn ysgrifennu at y Siambr Fasnach i ofyn am eu cymorth gyda chynnig y Cyngor i droi goleuadau Nadolig y Dref ymlaen ar y dyddiad traddodiadol, sef Nos Wener y 26ain o Dachwedd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Y dyddiad a argymhellwyd gan y Siambr Fasnach ar gyfer Gŵyl y Synhwyrau oedd y 19eg o Dachwedd. Roedd y Cyngor yn awyddus i leihau effaith arddangos y goleuadau am gyfnod hirfaith o amser ar yr amgylchedd. Roedd pawb o blaid.
   Argymhellwyd bod y goleuadau Nadolig yn cael eu profi ar y 24ain o Hydref, a byddai angen tîm o wirfoddolwyr rhwng 6-11yb i reoli traffig.
   Roedd yr eitemau canlynol yn ofynnol:-
   i) Dau newidydd ychwanegol ar gyfer y goeden - £45
   ii) Set o oleuadau ychwanegol ar gyfer y goeden - £100
   Roedd y ddwy eitem yma o fewn y gyllideb a gytunwyd
3. Is Grŵp Tân Gwyllt
   Adroddodd y Cyng. Colin Jenkins am gyfarfod a gynhaliwyd ar y 30ain o Fawrth. Byddai'r archebion ar gyfer y tân gwyllt yn cael eu paratoi gan y Swyddog Technegol, a byddai'r Clerc yn cyfarwyddo Mr Geraint Price, fel y person cymwys enwebedig, i anfon am y tân gwyllt ar ran y Cyngor. Y gyllideb ar eu cyfer fyddai £3,750 plws TAW.
   Gofynnwyd i'r Swyddog Cyllid i sicrhau bod yswiriant ar gyfer y digwyddiad yn ei le erbyn y 1af o Hydref 2010.
   Byddai'r Swyddog Technegol yn cwblhau'r Asesiad Risg a chynllun safle. Doedd dim gwirfoddolwyr yn barod i baratoi rhaglen ar gyfer y digwyddiad.

4. Y Cyfarfod Blynyddol.
   Rhoddodd y Clerc adroddiad bras am y trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol sydd i'w gynnal ar yr 28ain o Fai 2010.

Cof 55 /Mai /10 Unrhyw eitemau o fusnes y mae'r Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Gofynnodd y Cyng. Roy Davies i'r Cyngor i ystyried gwahodd yr Aelod Seneddol a etholwyd o'r newydd, Mr Jonathan Edwards a Rhodri Glyn Thomas AC i gwrdd gyda'r Cyngor. Byddai'r mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30yh.